

Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 CBAC
mewn TGCh (Dyfarniad Technegol)

DEUNYDDIAU ASESU
ENGHREIFFTIOL

UNED 2

I'w haddysgu o 2022
I'w dyfarnu o 2024

Cynnwys

	Tudalen
Asesiad Dan Reolaeth Mewnol	
UNED 2: TGCh yn ei Chyd-destun	
Briff	3
Tasgau'r Aseiniad	4
Canllaw ar reolaethau	15
Cynllun marcio	17

Uned 2: TGCh yn ei Chyd-destun

Aseiniad

DEUNYDDIAU ASESU ENGHREIFFTIOL

40 AWR

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Darllenwch y briff yn ofalus cyn dechrau'r aseiniad.

Byddwch yn ennill marciau am dasgau allweddol a gaiff eu cwblhau yn y ffenestr Asesu. Cyfanswm yr amser a neilltuir ar gyfer tasgau a asesir fydd 40 awr. Ni chewch fwy na'r amser hwn. Mae'r amser a argymhellir wedi'i nodi ar gyfer pob tasg.

Dylai eich gwaith gynnwys gwybodaeth a dealltwriaeth a feithrinwyd yn ystod sesiynau addysgu yn yr ystafell ddosbarth.

Darllenwch y wybodaeth a thasgau'r aseiniad yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn deall yr hyn sydd ei angen.

Mae'n bwysig eich bod yn gweithio'n annibynnol ar yr ymgeiswyr eraill ac yn sicrhau mai eich gwaith chi eich hun heb gymorth neb yw'r gwaith a gynhyrchir.

Gwiriwch eich gwaith yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn gywir ac yn bodloni'r gofynion asesu.

GWYBODAETH I YMGEISWYR

Bydd angen i chi a'ch athro lofnodi datganiad mai eich gwaith chi yn unig yw'r holl waith a gyflwynir.

Ni chewch drafod na rhannu unrhyw fanylion am y briff na'r tasgau.

TGCH yn ei Chyd-destun

Briff yr Aseiniad Haf 20xx

Mae eich cefnder wedi etifeddu swm mawr o arian ac wedi defnyddio'r rhan fwyaf ohono i brynu cwmni sy'n hurio cyfarpar ar gyfer cyngherddau. Mae'r cyfarpar y mae'n ei hurio yn cynnwys sgriniau mawr, pebyll mawr, llwyfannau, prif standiau a goleuadau. Mae wedi ailenwi'r cwmni yn *Gear4Gigs2Hire* ac wedi gofyn i chi ei helpu i osod rhwi systemau TG er mwyn helpu'r busnes i rededg yn ddidrafferth.

Bydd angen i chi wneud y canlynol:

- Creu logo priodol i gynrychioli'r busnes.
Bydd eich cefnder yn defnyddio'r logo hwn ar bob dogfen yn ogystal â'r cyfarpar mawr megis sgriniau a phebyll mawr. Mae'n agored i awgrymiadau ynghylch cynllun lliwiau ond mae am gael arddull gyson fel y bydd pobl yn adnabod y brand yn hawdd.
- Llunio system er mwyn cadw golwg ar gyfarpar, cwsmeriaid ac archebion.
Mae angen i'r system hon fod yn hawdd i'w deall a'i defnyddio. Mae am allu dod o hyd i wybodaeth benodol yn gyflym ac yn hawdd, megis pa gyngherddau sy'n digwydd mewn mis penodol neu mewn gwlad benodol a hoffai lunio adroddiadau y gall eu rhannu â'i staff.
- Creu ffordd awtomataidd o lunio anfonebau cwsmeriaid.
Rhaid i'r system hon fod yn hawdd i'w defnyddio ac yn ddi-feth am ei fod yn trafod symiau mawr o arian. Rhaid i'r anfonebau fod yn broffesiynol, yn gywir ac yn glir a rhaid iddynt adlewyrchu'r brand.
- Llunio llythyr wedi'i awtomeiddio.
Hoffai eich cefnder hefyd gysylltu â chwsmeriaid presennol yn y DU sydd wedi gwario mwy na £10,000 yn y tair blynedd flaenorol. Mae'n awyddus i'w hysbysu ei fod wedi cymryd y cwmni drosodd a'u sicrhau y bydd yn cynnig gwasanaeth sydd hyd yn oed yn well nag o'r blaen. Er mwyn dathlu cymryd y cwmni drosodd, mae'n bwriadu cynnig gostyngiad o 5% ar archebion iddynt yn y chwe mis nesaf. Rhaid i'r llythyr fod yn llythyr wedi'i awtomeiddio ac adlewyrchu'r brand.

Mae'r ffeiliau canlynol yn darparu sampl o'r data a gedwir gan *Gear4Gigs2Hire*.

Bydd angen i chi gael mynediad i'r setiau data hyn fel man cychwyn:

[cwsmeriaid.csv]

[cyfarpar.csv]

[archebion.csv]

Tasgau'r Aseiniad

Gallwch gwblhau'r tasgau canlynol mewn **unrhyw drefn**. Darllenwch bob un o'r tasgau cyn i chi ddechrau ystyried pa dasg fyddai'r un fwyaf ymarferol i'w gwneud gyntaf.

Tasg 1

Cynnwys yr uned	Tasgau	Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser a Argymhellir	Rheolaethau	AA a marciau	Cyfanswm y Marciau
2.1	1. CYNLLUNIO, CREU, ADDASU A DEFNYDDIO CRONFA DDATA					36
2.1.1	(a) Cynlluniwch a dyluniwch gronfa ddata mewn ymateb i friff y cleient. Dylech wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • dadansoddi gofynion briff y cleient • nodi meini prawf llwyddiant • nodi'r endidau gwahanol ym mriff y cleient • dylunio strwythur cronfa ddata sy'n cynnwys tablau, perthnasoedd, ffurflenni, ymholiadau, adroddiadau, meysydd, prif allweddi ac allweddi estron, mathau o ddata, priodweddau maes, rheolau dilysu sy'n lleihau afreidrwydd data • rhoi cyfiawnhad manwl dros y mathau o feysydd rydych wedi'u defnyddio • cyfiawnhau eich dewis o reolau dilysu a gymhwyswyd gennych at y mathau o feysydd. 	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi briff y cleient • Meini Prawf Llwyddiant • Diagram perthynas endid • Dyluniad y gronfa ddata gan gynnwys cyfiawnhad manwl dros y mathau o feysydd a ddefnyddiwyd a'ch dewis o reolau dilysu. 	4 awr	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Anuniongyrchol Adnoddau: Caniateir I Cydweithio: Ni chaniateir	AA1 = 4 AA2 = 4 AA3 = 4	12

Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Uned 2 Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 mewn TGCh (Dyfarniad Technegol)5

Cynnwys yr uned	Tasgau:	Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser a Argymhellir	Rheolaethau	AA a marciau	Cyfanswm y Marciau
2.1.2	<p>(b) Lluniwch ac addaswch eich cronfa ddata yn ôl eich gwaith cynllunio a dylunio.</p> <p>Dylech wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> mewnforio data o ffeil CSV benodol llunio ac addasu tablau ychwanegu meysydd creu prif allwedd pennu mathau priodol o ddata cymhwyso rheolau dilysu a negeseuon gwall effeithiol cysylltu tablau gan ddefnyddio meysydd a pherthnasoedd allweddol ychwanegu, golygu a dileu cofnodion gwirio a phrofi data er mwyn sicrhau nad ydynt yn cynnwys unrhyw wallau gwirio a phrofi'r gronfa ddata er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio'n iawn. 	<ul style="list-style-type: none"> poblogi'r gronfa ddata Ychwanegu, golygu a dileu cofnodion Tystiolaeth o wirio a phrofi. 	3 awr 20 munud	<p>Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol</p> <p>Canllawiau: Anuniongyrchol</p> <p>Adnoddau: Caniateir</p> <p>Cydweithio: Ni chaniateir</p>	AA1 = 2 AA2 = 4 AA3 = 4	10
2.1.3	<p>(c) Holwch eich cronfa ddata</p> <p>Dylech wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Llunio ymholiadau dewis, gan ddefnyddio lluniwr ymholiadau gan gynnwys: tabl unigol/maen prawf unigol tablau lluosog/meini prawf lluosog nodchwiliwr paramedr, cyfrifiadau Llunio adroddiadau o ymholiadau, gydag o leiaf un adroddiad sy'n dangos gwaith addasu er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben. 	<ul style="list-style-type: none"> Herio'r dyluniad a'r canlyniadau Cofnodi'r dyluniad a'r canlyniadau. 	1 awr 20 munud		AA2 = 4	4

Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Uned 2 Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 mewn TGCh (Dyfarniad Technegol)6

Cynnwys yr uned	Tasgau:	Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser a Argymhellir	Rheolaethau	AA a marciau	Cyfanswm y Marciau
	<p>(d) Lluniwch ryngwyneb defnyddiwr ar gyfer eich cronfa ddata. Dylech wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • llunio ffurflenni cofnodi data effeithiol sy'n symleiddio'r broses o gofnodi a llywio, gan gynnwys meysydd perthnasol a derbyn data a dilysu • gwella gosodiad y ffurflen er mwyn cynnwys delwedd at ddibenion busnes • ychwanegu nodweddion a rheolyddion sy'n gwneud y system yn hawdd i'w defnyddio ac yn galluogi'r defnyddiwr i lywio ei ffordd drwy gofnodion, ffurflenni, ymholiadau ac adroddiadau yn hawdd, VB a/neu Macro. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ffurflenni cofnodi data sy'n cynnwys delwedd • Tystiolaeth o'r defnydd o nodweddion a rheolyddion, VB a Macro. 	1 awr 20 munud	<p>Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol</p> <p>Canllawiau: Anuniongyrchol</p> <p>Adnoddau: Caniateir</p> <p>Cydweithio: Ni chaniateir</p>	AA2 = 4	4
2.1.5	<p>(d) Profwch a gwerthuswch eich cronfa ddata. Dylech wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • darparu cynllun profi a dewis amrywiaeth o ddata profi gan gynnwys data dilys, eithafol a gwallus • rhoi rhesymau manwl dros bob un o'r dulliau profi • rhoi tystiolaeth ar gyfer y profion a gynhaliwyd fel rhan o'r cynllun profi gan gynnwys tystiolaeth o lwyddiant/methiant y profion • gwerthuso llwyddiannau a methiannau'r profion a nodi gwelliannau 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynllun profi gyda chyfiawnhad dros y dulliau profi • Tabl profi gyda'r canlyniadau • Gwerthusiad gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. 	2 awr		AA2 = 4 AA3 = 2	6

Tasg 2

Cynnwys yr uned	Tasgau:	Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser a Argymhellir	Rheolaethau	AA a marciau	Cyfanswm y Marciau	
2.2	2	CYNLLUNIO, CREU, ADDASU A DEFNYDDIO TAENLEN				36	
2.2.1	(a)	<p>Cynlluniwch a dyluniwch daenlen mewn ymateb i friff y cleient. Dylech wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dadansoddi gofynion briff y cleient • nodi meini prawf llwyddiant • dylunio strwythur taenlen gan gynnwys taflenni gwaith, dull llywio, fformiwlâu, offer a thechnegau sydd i'w defnyddio. 	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi'r briff • Meini prawf llwyddiant • Strwythur taenlen. 	2 awr	<p>Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol</p> <p>Canllawiau: Anuniongyrchol</p> <p>Adnoddau: Caniateir</p> <p>Cydweithio: Ni chaniateir</p>	<p>AA1 = 2</p> <p>AA2 = 2</p> <p>AA3 = 2</p>	6
2.2.2	(b)	<p>Lluniwch a fformatiwch eich taenlen yn ôl eich gwaith cynllunio a dylunio. Dylech wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mewnfurio data o'r ffeil CSV benodol a chreu eich cynnwys ychwanegol eich hun • gwella gosodiad a fformat y daenlen gan gynnwys arddull y ffont; maint y ffont; gwella gridiau/borderi teitlau; lliwiau; celloedd wedi'u cyfuno; aliniad cell; amlapio testun; penynnau neu droedynnau; ffurflenni; tab taflen waith • hwyluso'r gwaith o gofnodi data drwy ddefnyddio rheolyddion ffurflenni, e.e. botymau, blwch ticio, cwymplenni, blychau combo, troellwyr, bar sgrolio • diffinio adran argraffu er mwyn cyflwyno canlyniad sy'n gyfeillgar i'r cwsmer • llunio dewislen llywio er mwyn addasu a symleiddio defnydd y cleient o'r llyfr gwaith. 	<ul style="list-style-type: none"> • Fersiwn 1 o'r daenlen wedi'i phoblogi ac wedi'i fformatio. 	2 awr		<p>AA1 = 2</p> <p>AA2 = 4</p>	6

Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Uned 2 Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 mewn TGCh (Dyfarniad Technegol)8

Cynnwys yr uned	Tasgau:	Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser a Argymhellir	Rheolaethau	AA a marciau	Cyfanswm y Marciau
2.2.3	<p>(c) Defnyddiwch fformatau data priodol ac ychwanegwch reolau dilysu addas.</p> <p>Dylech wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio fformatau data, (e.e. arian cyfred, %, lleoedd degol) • defnyddio fformatio amodol • defnyddio'r ffwythiant dyddiad/amser • hwyluso'r gwaith o gofnodi data drwy ddefnyddio rheolyddion ffurflenni dilysu, e.e. cwymplenni, blychau combo, troellwyr, bar sgrolio • llunio gwiriadau dilysu, e.e. amrediad, math, presenoldeb, fformat • llunio negeseuon dilysu. 	<ul style="list-style-type: none"> • Fersiwn 2 o'r daenlen a thystiolaeth gyfatebol sy'n dangos fformatio, ffwythiannau a dilysu ychwanegol. 	1 awr 20 munud	<p>Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol</p> <p>Canllawiau: Anuniongyrchol</p> <p>Adnoddau: Caniateir</p> <p>Cydweithio: Ni chaniateir</p>	AA2 = 4	4
2.2.4	<p>(d) Defnyddiwch fformiwlâu a ffwythiannau priodol er mwyn cyflawni'r canlyniadau a nodir yn y briff.</p> <p>Dylech wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • defnyddio fformiwlâu gydag un gweithredydd (+, -, *, /) • defnyddio cromfach i flaenoriaethu cyfrifiad • defnyddio ffwythiannau syml, megis SUM, AVERAGE, MAX, MIN, RAND, COUNT, COUNTA, COUNTIF, INT/MOD • defnyddio cyfeirnoddi cymharol ac absoliwt • defnyddio ffwythiannau cymhleth, megis IF, nested IF, IF(OR), IF(AND), SUMIF, AVERAGEIF, VLOOKUP, COUNTIF, chwilio am nodau, tablau colyn • defnyddio macros i gysylltu ffwythiant cynhenid. 	<ul style="list-style-type: none"> • Fersiwn 3 o'r daenlen a thystiolaeth gyfatebol sy'n dangos y defnydd o fformiwlâu a ffwythiannau a'r defnydd o macros i gysylltu ffwythiant cynhenid. 	1 awr 20 munud		AA2 = 4	4

Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Uned 2 Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 mewn TGCh (Dyfarniad Technegol)⁹

Cynnwys yr uned	Tasgau:	Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser a Argymhellir	Rheolaethau	AA a marciau	Cyfanswm y Marciau
2.2.5	(d) Trefnwch, lleihewch ac allbynnwch ddata er mwyn helpu i wneud penderfyniadau. Dylech wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> defnyddio trefnu ar eitemau unigol defnyddio trefnu ar eitemau lluosog defnyddio hidlyddion llunio siart/graff gyda theitl priodol, allwedd, labeli echelin a fformatio. 	<ul style="list-style-type: none"> Fersiwn 4 o'r daenlen a thystiolaeth gyfatebol i ddangos y defnydd o drefnu, hidlyddion a graff/siart. 	1 awr 20 munud	Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol Canllawiau: Anuniongyrchol Adnoddau: Caniateir Cydweithio: Ni chaniateir	AA2 = 4	4
2.2.6	(dd) Addaswch ddata a fformiwlâu i fodelu senarios 'beth os' Dylech wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> defnyddio ymchwiliadau 'beth os' i newid data defnyddio ymchwiliadau 'beth os' i newid fformiwlâu. 	<ul style="list-style-type: none"> Fersiwn 5 o'r daenlen a thystiolaeth gyfatebol sy'n dangos y defnydd o ymchwiliadau 'beth os'. 	1 awr 20 munud		AA2 = 4	4
2.2.7	(e) Profwch a gwerthuswch eich taenlen. Dylech wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> darparu cynllun profi a dewis amrywiaeth o ddata profi gan gynnwys data dilys, eithafol a gwallus defnyddio tabl profi, sy'n seiliedig ar y meini prawf llwyddiant a nodwyd gennych yn nhasg a) uchod rhoi rhesymau manwl dros bob un o'r dulliau profi rhoi dystiolaeth ar gyfer y profion a gynhaliwyd gwerthuso llwyddiannau a methiannau'r profion a nodi gwelliannau awgrymu ffordd o wneud y gwelliannau hyn. 	<ul style="list-style-type: none"> Cynllun Profi Tabl profi gyda'r canlyniadau Gwerthusiad gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. 	2 awr 40 munud		AA2 = 4 AA3 = 4	8

Tasg 3

Cynnwys yr uned	Tasgau:	Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser a Argymhellir	Rheolaethau	AA a marciau	Cyfanswm y Marciau	
2.3	3	CYNLLUNIO, LLUNIO AC ADDASU DOGFEN WEDI'I HAWTOMEIDDIO				18	
2.3.1	(a)	<p>Cynlluniwch a dyluniwch ddogfen wedi'i hawtomeiddio mewn ymateb i friff y cleient.</p> <p>Dylech wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dadansoddi gofynion briff y cleient • Nodi meini prawf llwyddiant • dylunio dogfen safonol gan gynnwys lleoliad dalfannau, fformatio a nodweddion sydd i'w defnyddio. 	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi briff y cleient • Meini prawf llwyddiant • Dylunio dogfen. 	2 awr	<p>Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol</p> <p>Canllawiau: Anuniongyrchol</p> <p>Adnoddau: Caniateir</p> <p>Cydweithio: Ni chaniateir</p>	<p>AA1 = 2</p> <p>AA2 = 2</p> <p>AA3 = 2</p>	6
2.3.2	(b)	<p>Crëwch ffynhonnell data wedi'i strwythuro'n effeithiol a'i chysylltu â dogfen safonol.</p> <p>Dylech wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • llunio dogfen safonol sy'n cyd-fynd â'ch gwaith cynllunio a dylunio • llunio dogfen ffynhonnell sy'n seiliedig ar eich meini prawf llwyddiant • creu meysydd wedi'u rhannu'n briodol • creu data priodol yn y meysydd • creu cyswllt rhwng ffynhonnell y data a'r ddogfen safonol 	<ul style="list-style-type: none"> • Dogfen ffynhonnell • Fersiwn 1 o'r ddogfen safonol wedi'i chysylltu â ffynhonnell y data. 	1 awr 20 munud		AA2 = 4	4

Cynnwys yr uned	Tasgau:	Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser a Argymhellir	Rheolaethau	AA a marciau	Cyfanswm y Marciau
2.3.3	<p>(c) Strwythurwch gynnwys y ddogfen safonol yn briodol a mewnosodwch feysydd yn ôl yr angen.</p> <p>Dylech wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> mewnosod meysydd fel sy'n ofynnol gan y briff: llinell cyfeiriad; pwnc; cyfarchiad/ffarweliad cynnwys personol yn y ddogfen sicrhau bod y cynnwys yn gywir: sillafu; gramadeg; prawfddarllen ychwanegu fformatiau a nodweddion priodol: pennawd llythyr; dyfrnod; diweddarau dyddiad yn awtomatig; alinio; gosod bylchiad llinellau; cyfiawnhad; mynegeio; meysydd awtomatig, bwledi a gosodiad addas. 	<ul style="list-style-type: none"> Fersiwn 2 o'r ddogfen safonol gyda meysydd wedi'u mewnosod a fformatio a nodweddion priodol. 	1 awr 20 munud	<p>Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol</p> <p>Canllawiau: Anuniongyrchol</p> <p>Adnoddau: Caniateir</p> <p>Cydweithio: Ni chaniateir</p>	AA2 = 4	4
2.3.4	<p>(d) Cyfunwch ac allbynnwch y dogfennau terfynol.</p> <p>Dylech wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> cwblhau'r broses gyfuno a sicrhau bod y ddogfen yn gywir gwirio'r fformatio ar ôl i'r data wedi'u cyfuno gael eu mewnosod allbynnu'r dogfennau wedi'u cyfuno gwerthuso'r ddogfen a nodi gwelliannau. 	<ul style="list-style-type: none"> Fersiwn 3 o'r ddogfen safonol sy'n dangos y broses gyfuno wedi'i chwblhau. Gwerthusiad gan gynnwys awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. 	1 awr 20 munud		AA2 = 4 AA3 = 2	6

Tasg 4

Cynnwys yr uned	Tasgau:	Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser a Argymhellir	Rheolaethau	AA a marciau	Cyfanswm y Marciau	
2.4	4	CYNLLUNIO, CREU, TRIN A STORIO DELWEDDAU				30	
2.4.1	(a)	<p>Cynlluniwch a dyluniwch ddelwedd mewn ymateb i friff y cleient.</p> <p>Dylech wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dadansoddi gofynion briff y cleient • nodi meini prawf llwyddiant • cynllunio'r dyluniad (brasluniau a gosodiadau) gydag anodiadau • dewis ffynhonnell y ddelwedd (delwedd wedi'i thynnu eich hun (camera/sganiwr)), delweddau trydydd-parti, delweddau o'r rhynggrwyd neu ffynhonnell eilaidd arall • nodi priodweddau allweddol y ddelwedd (e.e. maint, fformat) a chyfyngiadau wrth olygu • nodi unrhyw hawlfraint neu hawliau eiddo deallusol a chyfeirio at y ffynhonnell. 	<ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi briff y cleient • Meini Prawf Llwyddiant • Dogfennau dylunio wedi'u hanodi ar gyfer y ddelwedd gan gynnwys y priodweddau allweddol a chyfyngiadau wrth olygu • Delweddau a ddefnyddiwyd • Cyfeirio at y ffynhonnell gan gynnwys cyfeiriadau at hawlfraint/hawliau eiddo deallusol. 	4 awr	<p>Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol</p> <p>Canllawiau: Anuniongyrchol</p> <p>Adnoddau: Caniateir</p> <p>Cydweithio: Ni chaniateir</p>	AA1 = 8 AA2 = 2 AA3 = 2	12

Cynnwys yr uned	Tasgau:	Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser a Argymhellir	Rheolaethau	AA a marciau	Cyfanswm y Marciau
2.4.2	<p>(b) Crëwch ac addaswch ddelwedd gan ddefnyddio offer a thechnegau priodol.</p> <p>Dylech wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> cymharu mathau o ffeil (png, tiff, jpeg) ac addasrwydd at y diben (maint, cydraniad, y gallu i dyfu neu leihau) dewis meddalwedd yn ôl y math o ddelwedd (fector/rastr) dewis priodweddau'r ddelwedd (RGB/CMYK) a maint cynfas yn seiliedig ar ofynion allbwn mewnforio delwedd/creu delwedd gan ddefnyddio offer/creu delwedd hybrid fel y bo'n briodol defnyddio offer safonol ac uwch i greu ac addasu eich delwedd <p>Safonol:</p> <p>Dewis marquee, lasso, torri, copïo, tocio, symud, grwpio, cylchdroi, aflunio, helaethu/crebachu, hudlath, dwyn i'r blaen/anfon i'r cefn, brwshys/pensil, addasu trwch/arddull llinell, llinellau syml, siapiau, cromliniau (llaw rydd ac awto), llenwi, ychwanegu testun, golygu testun</p> <p>Uwch:</p> <p>Pylu, blendio, smwtsio, hogi, modd lliw, disgleirdeb, cyferbynnedd, haenau, cyfuno haenau, cuddio/cuddio haenau, newid alffa, clonio, dilëwr cefndir, brwsh aer, graddiant.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Cymharu mathau o ffeil Delwedd sy'n dangos tystiolaeth o waith addasu, gan ddefnyddio offer a thechnegau safonol ac uwch, priodweddau delweddau a'r feddalwedd a ddefnyddiwyd. 	2 awr 40 munud	<p>Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol</p> <p>Canllawiau: Anuniongyrchol</p> <p>Adnoddau: Caniateir</p> <p>Cydweithio: Ni chaniateir</p>	AA2 = 6 AA3 = 2	8

Cynnwys yr uned	Tasgau:	Tystiolaeth sy'n Ofynnol	Amser a Argymhellir	Rheolaethau	AA a marciau	Cyfanswm y Marciau
2.4.3	<p>(c) Storiwch y ddelwedd yn briodol ac allbynnwch y ddelwedd derfynol mewn fformat sy'n addas at y diben.</p> <p>Dylech wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • storio eich delwedd(au) gan ddefnyddio rheoli fersiynau • storio eich delweddau gan ddefnyddio math priodol o ffeil (fector neu rastr) • allbynnu'r fersiwn derfynol mewn fformat wedi'i optimeiddio • profi'r mathau o ffeil yn electronig ac yn ddigidol er mwyn gwerthuso eu haddasrwydd at y diben • gwerthuso eich cynnyrch terfynol yn erbyn y meini prawf llwyddiant, gan nodi gwelliannau posibl. 	<ul style="list-style-type: none"> • Tystiolaeth o storio ffeiliau sy'n dangos rheoli fersiynau a'r math o ffeil • allbynnu'r fersiwn derfynol mewn fformat wedi'i optimeiddio • Tystiolaeth o brofi • Gwerthuso yn erbyn y meini prawf llwyddiant gydag awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. 	3 awr 20 munud	<p>Goruchwyliaeth: Anuniongyrchol</p> <p>Canllawiau: Anuniongyrchol</p> <p>Adnoddau: Caniateir</p> <p>Cydweithio: Ni chaniateir</p>	AA2 = 4 AA3 = 6	10
					Cyfanswm y Marciau	120

Canllaw ar reolaethau

Mae nifer o agweddau gwahanol a reolir o fewn yr asesiad mewnol o'n Dyfarniadau Galwedigaethol, sef:

- goruchwyliaeth
- canllawiau
- adnoddau
- cydweithio

Goruchwyliaeth

Mae asesiad TGCh Uned 2 yn cynnwys un lefel o oruchwyliaeth:

Goruchwyliaeth anuniongyrchol	<p>Nid oes rhaid goruchwyllo ymgeiswyr yn uniongyrchol drwy'r amser.</p> <p>Rhaid i'r ganolfan sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none">• bod pob ymgeisydd yn cymryd rhan yn yr asesiad• bod digon o oruchwyliaeth i sicrhau y gellir dilysu'r gwaith• mai gwaith unigol yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith a gyflwynir i'w asesu. <p>Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.</p>
--	--

Cyfarwyddyd

Drwy gydol asesiad Dan Reolaeth TGCh Uned 2 mae rheolaeth anuniongyrchol ar y canllawiau:

Categori Cyngor/Adborth: <i>Gall athrawon:</i>	Rheolaeth anuniongyrchol
Adolygu gwaith ymgeiswyr a rhoi cyngor ar lafar ac yn ysgrifenedig ar lefel gyffredinol .	✓
Gwerthuso cynnydd hyd yn hyn a chynnig ffyrdd eang o wella.	✗
Rhoi cyngor manwl a phenodol ar sut i wella fersiynau drafft er mwyn bodloni meini prawf asesu.	✗
Rhoi adborth manwl ar wallau a hepgoriadau sy'n gadael ymgeiswyr heb gyfle i ddangos y gallant weithio ar eu liwt eu hunain.	✗
Ymyrryd yn bersonol i wella cyflwyniad neu gynnwys darn o waith.	✗

Cyn rhoi cymorth ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a ddisgrifir uchod, rhaid i athrawon sicrhau bod darpariaeth i gofnodi'r cymorth hwn. Rhaid cofnodi manylion ar y ffurflen gofnodi a gyhoeddir gan CBAC. Rhaid ystyried yr ymyrraeth wrth farcio'r gwaith. Dylid defnyddio anodiadau i esbonio sut cafodd marciau eu cymhwyso yng nghyd-destun y cymorth ychwanegol a roddwyd. Ystyrir methu â dilyn y weithdrefn hon yn achos o gamymddwyn.

Adnoddau

Yn Uned 2, bydd yr ymgeiswyr yn ymgymryd â thasgau sy'n nodweddiadol o'r gweithle ac, felly, caniateir iddynt ddefnyddio adnoddau a fyddai'n cael eu defnyddio fel arfer yn yr amgylchedd hwnnw.

Caniateir adnoddau drwy gydol Asesiad dan reolaeth Uned 1 TGCh:

Caniateir

Fel arfer, nid oes cyfyngiad ar yr adnoddau sydd ar gael i ymgeiswyr, dylid dilyn y cyfarwyddyd yn y briff neu ganllawiau'r uned.

Rhaid i waith ymgeiswyr aros yn y ganolfan bob amser, a chael ei storio'n ddiogel rhwng sesiynau ar yr amserlen.

Dylai canolfannau gyfeirio at fanylebau neu ganllawiau pwnc-benodol.

Dylai canolfannau gyfeirio at ganllawiau CBAC Camymddwyn – canllaw i ganolfannau a chanllawiau JCQ Suspected malpractice in examinations and assessments – policies and procedures os nad ydynt yn siŵr ynghylch y camau nesaf y dylent eu cymryd.

Cydweithredu

Ni all ymgeiswyr gydweithio ar unrhyw dasgau yn Uned 2.

Ailddrafftio

Caniateir ailddrafftio yn ystod yr asesiad dan reolaeth, heb adborth gan yr athro.

Amser

Cyfanswm yr amser a neilltuir ar gyfer tasgau a asesir fydd 40 awr. Ni chaiff ymgeiswyr fwy na'r amser hwn. O ran rheolaethau amser, mae tasgau Uned 2 yn cynnwys amseroedd a argymhellir fel arweiniad yn unig. Serch hynny, dylai canolfannau annog ymgeiswyr i gadw o fewn yr amseroedd a argymhellir ac i neilltuo digon o amser ar gyfer y gwaith hwn.

Cynllun marcio

Cyfarwyddyd

Gridiau asesu ar gyfer asesiad dan reolaeth – Uned 2

Egwyddorion marcio cyffredinol

- Marciau cyfan (nid hanner marciau na ffracciynau eraill) a ddyfernir bob amser.
- Dim ond pan fydd cwestiwn yn asesu ansawdd sillafu, atalnodi a gramadeg yn benodol fel y nodir yn y cynllun marcio y dylid barnu atebion ar sail y nodweddion hyn. Fodd bynnag, dylai'r ystyr fod yn ddiamwys.
- Dylid dyfarnu marciau gan ddefnyddio'r ystod lawn o farciau a ddiffinnir yn y cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn (fodd bynnag; gall ansawdd ymatebion yr ymgeisydd a welir gyfyngu ar y gallu i ddefnyddio'r ystod marciau lawn.
- Dyfernir marciau yn gyfan gwbl ar sail y gofynion a ddiffinnir yn y cynllun marcio. Ni ddylid dyfarnu marciau gyda throthwyon gradd na disgrifyddion gradd mewn golwg.

Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau

Mae cynlluniau marcio sy'n seiliedig ar fandiau wedi'u rhannu fel bod gan bob band mewn adran ddisgrifydd perthnasol. Mae'r disgrifydd ar gyfer y band yn darparu disgrifiad o lefel y perfformiad ar gyfer y band hwnnw. Mae pob band yn cynnwys ystod o farciau.

Cam 1 – Penderfynu ar y band

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai aseswyr edrych ar yr adran briodol o waith yr ymgeisydd a gweld a yw'n cyd-fynd â disgrifydd y band marcio ar gyfer yr adran honno. Os bodlonir disgrifydd y band isaf, dylai aseswyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifydd yn cyfateb i'r gwaith.

Os yw gwaith ymgeisydd yn trafod agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio gwaith yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft os yw gwaith ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o'r cynnwys yn waith band 3, byddai'r gwaith yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a ddyfernir yn agos at frig band 2 oherwydd y cynnwys band 3.

Ni ddylai aseswyr dynnu marciau oddi ar ymgeiswyr am adael mân bethau allan mewn rhannau dibwys o'u gwaith.

Cam 2 – Penderfynu ar y marc

Ar ôl penderfynu ar y band, gall aseswyr fynd ati i bennu marc. Bydd CBAC yn darparu deunydd enghreifftiol y rhoddwyd marc iddo yn barod, a dylid defnyddio hwn fel deunydd cyfeirio wrth asesu'r gwaith.

Wrth farcio, gall aseswyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw gwaith ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Caiff aseswyr eu hatgoffa bod angen iddynt gyfeirio'n ôl at y gwaith wrth iddynt gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc a ddyrennir yn briodol i'r gwaith a gyflwynwyd.

Os nad yw'r gwaith yn haeddu marc, hynny yw, nid yw'n cynnwys unrhyw beth o arwyddocâd i'r project, neu os na ddarparwyd ateb o gwbl, ni ddylid dyfarnu unrhyw farciau.

Safoni mewnlol

Os oes mwy nag un athro mewn canolfan, mae'n hanfodol bod gwaith o bob grŵp addysgu'n cael ei safoni'n fewnlol. Bwriad hyn yw sicrhau bod yr asesiad terfynol yn adlewyrchu un safon y cytunwyd arni ar gyfer pob grŵp addysgu. Bydd pob canolfan yn derbyn adborth manwl ynglŷn â'r broses gymedroli drwy'r wefan ddiogel ar ddiwrnod y canlyniadau.

DRAFT

Gwahaniaethau o fewn ein cynlluniau marcio

Mae'r grid canlynol yn dangos ein man cychwyn i lunio ein cynlluniau marcio. Defnyddir y cynlluniau marcio hyn i sicrhau y gellir gwahaniaethu rhwng ein bandiau. Defnyddir y tabl hwn fel sail i asesu pob cwestiwn ond bydd yn adlewyrchu gofynion penodol y cwestiwn.

Band Disgrifydd	AA1	AA2	AA3
Ardderchog	<ul style="list-style-type: none"> Yn ymwybodol o amrediad eang o wybodaeth fanwl a chywir. Yn dangos dealltwriaeth sydd wedi'i datblygu'n llawn ac sy'n dangos perthnasedd i ofynion y cwestiwn. 	<ul style="list-style-type: none"> Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso'n gyson at gyd-destun y cwestiwn/tasg. Caiff sgiliau ymarferol eu cymhwyso'n gyson ac yn effeithiol ac maent o safon uchel Yn gallu llunio dehongliad trylwyr ac wedi'i datblygu'n llawn sy'n hollol gywir. 	<ul style="list-style-type: none"> Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd effeithiol iawn. Mae tystiolaeth wedi'i dethol i ddatblygu dadl effeithiol a chytbwys. Gwerthusiad manwl ac wedi'i gyfiawnhau sy'n cynnig barn gadarn, yn arwain at gasgliadau rhesymol.
Da lawn	<ul style="list-style-type: none"> Defnydd effeithiol a chywir o derminoleg. 		
Da	<ul style="list-style-type: none"> Yn meddu ar amrediad o wybodaeth fanwl a chywir. Yn dangos dealltwriaeth wedi'i datblygu'n dda sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn. Defnydd cywir o derminoleg. 	<ul style="list-style-type: none"> Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso at gyd-destun y cwestiwn/tasg. Caiff sgiliau ymarferol eu cymhwyso'n effeithiol ac maent o safon uchel i ganolig. Yn gallu llunio dehongliad datblygedig, sy'n gywir ar y cyfan. 	<ul style="list-style-type: none"> Yn defnyddio sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd effeithiol. Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl ddatblygedig, nad yw o bosibl yn gytbwys. Gwerthusiad manwl sy'n cynnig barn gadarn ar y cyfan, gyda pheth cysylltiad rhwng casgliadau rhesymol a thystiolaeth.
Bodddhaol	<ul style="list-style-type: none"> Yn cynnwys gwybodaeth gywir. Yn dangos dealltwriaeth gadarn sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn/tasg. Defnydd cywir o derminoleg ar y cyfan. 	<ul style="list-style-type: none"> Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso'n bennaf at gyd-destun y cwestiwn/tasg. Caiff sgiliau ymarferol eu cymhwyso'n briodol ac maent o safon ganolig. Yn gallu llunio dadansoddiad cadarn sy'n gywir ar y cyfan. 	<ul style="list-style-type: none"> Yn defnyddio sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd briodol a chadarn. Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl gadarn. NEU Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl un ochrog fanwl. Gwerthusiad sy'n cynnig rhai barnau, gyda pheth cysylltiad rhwng casgliadau a thystiolaeth.

Deunyddiau Asesu Enghreifftiol Uned 2 Dyfarniad Galwedigaethol Lefel 1/2 mewn TGCh (Dyfarniad Technegol)20

<p>Sylfaenol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yn dangos peth gwybodaeth gywir. • Yn dangos dealltwriaeth rannol sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn. • Peth defnydd o derminoleg briodol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff gwybodaeth a dealltwriaeth eu cymhwyso'n rhannol at gyd-destun y cwestiwn/tasg. • Mae'r sgiliau ymarferol o safon ganolig i isel. • Yn gallu llunio rhyw fath o ddadansoddiad sy'n dangos peth cywirdeb. 	<ul style="list-style-type: none"> • Yn defnyddio sgiliau dadansoddi a gwerthuso mewn ffordd briodol gan ddangos lefel gadarn o gymhwysedd ond efallai nad oes manylder. • Mae tystiolaeth wedi'i dethol i lunio dadl un ochrog. • Gwerthusiad sy'n cynnig barn a chasgliadau cyffredinol, heb fawr ddim tystiolaeth.
<p>Cyfyngedig</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth gyfyngedig gyda pheth perthnasedd i'r pwnc neu'r cwestiwn. • Prin yw'r datblygiad a welir, neu nid oes datblygiad o gwbl. • Prin iawn yw'r defnydd o derminoleg, neu ni chaiff ei defnyddio o gwbl. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ychydig iawn o wybodaeth a dealltwriaeth a gymhwysir at gyd-destun y cwestiwn/tasg. • Sgiliau ymarferol o safon isel. • Os oes dehongliad o gwbl, mae hwnnw'n ddehongliad syml a chyfyngedig iawn yw'r cywirdeb. 	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddir sgiliau dadansoddi a gwerthuso gyda chymhwysedd cyfyngedig. • Gwerthusiad heb ei gefnogi sy'n cynnig barnau/casgliadau syml, os o gwbl.

Pan fyddwch yn edrych ar bob un o'n cynlluniau marcio, byddwch yn gweld bod pob band yn cynnwys dilyniant o ddisgrifyddion perfformiad. Mae'r disgrifyddion yn gweithio fel ysgol: o'r gris isaf, i'r uchaf. Y banc lefel is 'Cyfyngedig' yw'r disgrifydd symlaf o ran perfformiad ymgeiswyr. Mae'r disgrifyddion hyn yn datblygu drwy'r grid i'r agwedd fwy heriol ar yr amcan asesu hwnnw. Mae'n bwysig nodi na fydd pob cwestiwn yn defnyddio pob pwynt bwled a restrir yn y tabl uchod, ond dylai ymgeiswyr ddangos **pob un o'r gofynion** sydd wedi'u cynnwys yn y cynlluniau marcio cyhoeddedig er mwyn ennill marciau llawn ar lefel benodol. Os bydd ymgeisydd yn cael marciau llawn ar lefel benodol, dylai marcwyr edrych i weld a yw'n dangos unrhyw un o'r gofynion o'r lefel nesaf i fyny hefyd. Yn aml, bydd ymgeiswyr yn cyflawni'r disgrifyddion ar un lefel, ond nid pob un ohonynt. Os felly, dylid cymhwyso egwyddor ffit orau.

Mae'r Canllaw ar Weinyddu Dyfarniadau Galwedigaethol yn cynnwys rhagor o wybodaeth am sut mae'r cynlluniau marciau ar gyfer ein Dyfarniadau Galwedigaethol wedi'u llunio, gan gynnwys gwybodaeth am y defnydd o fandiau marciau ar gyfer Ardderchog, Da Iawn a Da.

TASG 1 – CYNLLUNIO, CREU, ADDASU A DEFNYDDIO CRONFA DDATA

1 (a)	<p>Cynlluniwch a dyluniwch gronfa ddata mewn ymateb i friff y cleient.</p> <p>Dylech wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dadansoddi gofynion briff y cleient • nodi meini prawf llwyddiant • nodi'r endidau gwahanol ym mriff y cleient • dylunio strwythur cronfa ddata sy'n cynnwys tablau, perthnasoedd, ffurflenni, ymholiadau, adroddiadau, meysydd, prif allweddi ac allweddi estron, mathau o ddata, priodweddau maes, rheolau dilysu sy'n lleihau afreidrwydd data • rhoi gyfiawnhad manwl dros y mathau o feysydd rydych wedi'u defnyddio • cyfiawnhau eich dewis o reolau dilysu a gymhwyswyd gennych at y mathau o feysydd. 				[12]
		AA1	AA2	AA3	Cyfanswm y marciau
	<p>AA1 Dyfarnwch ddau farc am nodi'r meini prawf llwyddiant yn llawn. Dyfarnwch un marc am nodi'r meini prawf llwyddiant yn rhannol.</p> <p>Dyfarnwch ddau farc am nodi'r endidau gwahanol yn y briff yn llawn. Dyfarnwch un marc am nodi'r endidau gwahanol yn y briff yn rhannol.</p> <p>AA2 Dyfarnwch bedwar marc am ddyluniad manwl a thrwyadl o strwythur cronfa ddata sy'n cynnwys tablau, perthnasoedd, ffurflenni, ymholiadau, adroddiadau, meysydd, prif allweddi ac allweddi estron, mathau o ddata, priodweddau maes, rheolau dilysu sy'n lleihau afreidrwydd data.</p> <p>Dyfarnwch dri marc am ddyluniad effeithiol o strwythur cronfa ddata sy'n cynnwys tablau, perthnasoedd, ffurflenni, ymholiadau, adroddiadau, meysydd, prif allweddi ac allweddi estron, mathau o ddata, priodweddau maes, rheolau dilysu sy'n lleihau afreidrwydd data.</p> <p>Dyfarnwch ddau farc am ddyluniad sylfaenol o strwythur cronfa ddata sy'n cynnwys tablau, perthnasoedd, ffurflenni, ymholiadau, adroddiadau, meysydd, prif allweddi ac allweddi estron, mathau o ddata, priodweddau maes, rheolau dilysu sy'n lleihau afreidrwydd data.</p> <p>Dyfarnwch un marc am ddyluniad cyfyngedig o strwythur cronfa ddata sy'n cynnwys tablau, perthnasoedd, ffurflenni, ymholiadau, adroddiadau, meysydd, prif allweddi ac allweddi estron, mathau o ddata, priodweddau maes, rheolau dilysu sy'n lleihau afreidrwydd data.</p> <p>AA3 Dyfarnwch ddau farc am gyfiawnhad manwl dros y mathau o feysydd a ddefnyddiwyd. Dyfarnwch un marc am gyfiawnhad cyfyngedig dros y mathau o feysydd a ddefnyddiwyd. Dyfarnwch ddau farc am gyfiawnhad manwl dros y rheolau dilysu a ddewiswyd ganddo/ganddi. Dyfarnwch un marc am gyfiawnhad cyfyngedig dros y rheolau dilysu a ddewiswyd ganddo/ganddi.</p>	4	4	4	12

TASG 1 – CYNLLUNIO, CREU, ADDASU A DEFNYDDIO CRONFA DDATA

1 (b)	<p><i>Lluniwch ac addaswch eich cronfa ddata yn ôl eich gwaith cynllunio a dylunio.</i></p> <p><i>Dylech wneud y canlynol:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>llunio ac addasu tablau</i> • <i>ychwanegu meysydd</i> • <i>creu prif allwedd</i> • <i>pennu mathau priodol o ddata</i> • <i>cymhwyso rheolau dilysu a negeseuon gwall effeithiol</i> • <i>cysylltu tablau gan ddefnyddio meysydd a pherthnasoedd allweddol</i> • <i>mewnforio data o ffeil CSV benodol</i> • <i>ychwanegu, golygu a dileu cofnodion</i> • <i>gwirio a phrofi data er mwyn sicrhau nad ydynt yn cynnwys unrhyw wallau</i> • <i>gwirio a phrofi'r gronfa ddata er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio'n iawn.</i> 					[10]
		AA1	AA2	AA3	Cyfanswm y marciau	
	<p>AA1 Dyfarnwch ddau farc am fewnforio data o'r ffeil CSV benodol yn llwyr. Dyfarnwch un marc am fewnforio data o'r ffeil CSV benodol yn rhannol.</p> <p>AA2 Dyfarnwch bedwar marc am lunio cronfa ddata wedi'i ddatblygu'n llawn gyda rheolau dilysu a negeseuon gwall a luniwyd yn ofalus. Bydd y tablau wedi'u cysylltu'n effeithiol gan ddefnyddio meysydd a pherthnasoedd allweddol.</p> <p>Dyfarnwch dri marc am lunio cronfa ddata ddatbledig gydag ystyriaeth addas yn cael ei rhoi i reolau dilysu a negeseuon gwall. Bydd y tablau wedi'u cysylltu'n briodol gan ddefnyddio meysydd a pherthnasoedd allweddol.</p> <p>Dyfarnwch ddau farc am lunio cronfa ddata sylfaenol gydag ystyriaeth rannol yn cael ei rhoi i reolau dilysu a negeseuon gwall. Bydd y tablau wedi'u cysylltu i ryw raddau gan ddefnyddio meysydd a pherthnasoedd allweddol.</p> <p>Dyfarnwch un marc am lunio cronfa ddata gyfyngedig gyda rheolau dilysu a negeseuon gwall sy'n briodol, ar y cyfan. Bydd ymgais gyfyngedig wedi'i gwneud i gysylltu meysydd a pherthnasoedd allweddol.</p> <p>AA3 Dyfarnwch bedwar marc am waith gwirio a phrofi wedi'i ddatblygu'n llawn er mwyn sicrhau nad yw'r data yn cynnwys unrhyw wallau a bod y gronfa ddata yn gweithio'n iawn.</p>	2	4	4	10	

<p>Dyfarnwch dri marc am waith gwirio a phrofi datblygedig er mwyn sicrhau nad yw'r data yn cynnwys unrhyw wallau a bod y gronfa ddata yn gweithio'n iawn.</p> <p>Dyfarnwch ddau farc am waith gwirio a phrofi sylfaenol er mwyn sicrhau nad yw'r data yn cynnwys unrhyw wallau a bod y gronfa ddata yn gweithio'n iawn.</p> <p>Dyfarnwch un marc waith gwirio a phrofi cyfyngedig lle nad yw pob gwall wedi'i nodi ac mae'r gronfa ddata yn gweithio'n rhannol, o bosibl.</p>				
---	--	--	--	--

DRAFT

TASG 1 – CYNLLUNIO, CREU, ADDASU A DEFNYDDIO CRONFA DDATA

